**PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **7fed Tachwedd 2001** |
| **Lleoloiad** | **Ystafell Bwyllgora 3** |
| **Teitl** | **Gweithredu'r argymhellion a wnaethpwyd gan Adroddiad y Grp Gorchwyl a Gorffen ar Ragnodi** |

**Pwrpas**

1. Cyflwyno cynllun ar gyfer gweithredu'r argymhellion a wnaethpwyd gan y Grp Gorchwyl a Gorffen ar Ragnodi

2. Yn ôl Rheol Sefydlog 9.7, y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am gyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad sy'n ymwneud â rhagnodi cyffuriau, darparu gwasanaethau fferyllol a chyflenwi cyffuriau yng Nghymru.

3. Gofynnir i'r Pwyllgor:

i) gytuno i sefydlu Grp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC) a fydd yn ymgynghorydd statudol iddo, a chytuno i'w gyfansoddiad a'i gylch gorchwyl (Atodiad 1); ac yn benodol

> a) i nodi'r angen am is-ddeddfwriaeth ar gyfer sefydlu'r pwyllgor
>
> b) y bydd Grp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan yn cynghori ar weithredu'r argymhellion strategol a wnaethpwyd gan y Grp Gorchwyl a Gorffen;
>
> c) i wneud sylwadau ar gynnwys cynrychiolaeth o'r Diwydiant Fferyllol (cyfeiriwch at bwynt 12 yn y ddogfen hon).

ii) gytuno i ddrafftio'r trefniadau gweithio a'r Cylch Gorchwyl, a darparu cyllid er mwyn i Bartneriaeth Meddyginiaethau Cymru fedru cefnogi gwaith Grp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (Atodiad 3);

iii) nodi'r cynllun gweithredu er mwyn cyflwyno argymhellion anstrategol Adroddiad y Grp Gorchwyl a Gorffen, y camau a gymerwyd eisoes er mwyn cyflawni hyn a'r gwaith a wnaethpwyd i gefnogi swyddogaeth Grp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan unwaith y'i sefydlir (Atodiad 4);

iv) nodi'r goblygiadau cyllido ar gyfer gweithredu argymhellion yr adroddiad.

v) nodi’r ymateb i’r ymholiadau a godwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 14eg Mawrth yngln â’r PPRS ac amnewidiadau generig a therapiwtaidd (Atodiad 6) .

**Crynodeb/Argymhellion**

4. Un o brif argymhellion y Grp Gorchwyl a Gorffen ar Ragnodi oedd y dylid sefydlu Grp Strategaeth Meddyginiaeth Cymru Gyfan ar sail swyddogol, a fyddai’n atebol i’r Cynulliad.

5. Nod y Grp Strategaeth yw darparu cyngor i’r Cynulliad mewn modd effeithiol, effeithlon a thryloyw ar reoli a rhagnodi meddyginiaeth mewn modd strategol. Bydd hyn yn galluogi’r Cynulliad i ddarparu canllawiau ar batrwm safonol i ymdrin â materion rhagnodi ledled Cymru, gan ganiatáu i ardaloedd lleol ei gymhwyso i’w dibenion eu hunain heb ddyblygu gwaith. Byddai’r grp yn dod â manteision yn gyflym i ofal cleifion trwy leihau nifer yr achosion o ‘ragnodi cod post’ ledled Cymru. Gellid sefydlu’r grp gyda chymorth Partneriaeth Meddyginiaethau Cymru, ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor.

6. Prif swyddogaethau’r Grp fyddai:

- Cynghori’r Cynulliad ar ei ragolygon yngln â datblygiadau yng ngofal iechyd sy’n golygu defnyddio meddyginiaethau, ac a fydd yn cynorthwyo’r Cynulliad yn ei gynllunio strategol ar gyfer effaith bosibl y rhain ar yr NHS yng Nghymru
- Datblygu cyngor amserol, annibynnol ac awdurdodol i’r Cynulliad ar gyffuriau newydd, ac ar y goblygiadau ariannol ar gyfer darparu’r cyffuriau hyn yn gyffredinol ar yr NHS. (Byddai hyn yn cynnwys gwneud argymhellion yn y cyfamser ar gyffuriau’n disgwyl am gymeradwyaeth gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE))
- Cynghori’r Cynulliad ar ddatblygu strategaeth rhagnodi gyson a chost effeithiol ar gyfer Cymru (gan ystyried datblygiadau fferyllol, canllawiau NICE, Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, epidemioleg Cymru)
- Cynghori’r Cynulliad ar weithredu ystod o argymhellion strategol eraill y Grp Gorchwyl a Gorffen ar Ragnodi, a’r manteision o ran cost ,ar lefel leol oddi mewn i’r NHS
- Cynghori’r Cynulliad ar sut y gellir cael grwpiau defnyddwyr i drafod disgwyliadau’r defnyddwyr a’u heffaith ar arferion rhagnodi.

7. Gweithredir argymhellion anstrategol y Grp Gorchwyl a Gorffen ar Ragnodi gan Swyddogion, mewn ymgynghoriad â Grp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan.

**Amseriad**

8. Er mwyn i’r manteision a ragwelir yn sgil Grp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan gael eu gwireddu’n gyflym, hoffem ei weld wedi ei sefydlu ac yn weithredol cyn 1 Ebrill 2002, ac [heb ragfarn i gyfluniad terfynol y gwasanaeth] fe fyddwn yn disgwyl aelodaeth gyson cyn hired â phosib dros gyfnod ailstrwythuro’r NHS.

**Cefndir**

9. Sefydlodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Grp Gorchwyl a Gorffen ar Ragnodi yn hwyr yn 1999. Roedd hi’n ofynnol i’r grp gynghori ar wella pob agwedd o ragnodi a darparu cyffuriau, mesur y manteision a’r adnoddau, nodi’r rhwystrau i weithredu’r gwelliannau a chasglu data a’i ddefnyddio fel gwybodaeth.

10. Cyflwynwyd adroddiad y Grp, a oedd yn cynnwys ryw 96 argymhelliad, i’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mawrth 2001. Croesawodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad a gofynnodd i swyddogion y Cynulliad lunio cynllun gweithredu gan restru’r costau, ar gyfer ei ystyried a’i flaenoriaethu gan y pwyllgor yn nhymor yr hydref 2001.

11. Un o’r brif argymhellion y Grp Gorchwyl a Gorffen ar Ragnodi oedd y dylid sefydlu Grp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan ar sail swyddogol, atebol i’r Cynulliad. Yn Atodiad 1, rhoddir manylion y Grp i fod yn arfaethedig, a ddatblygwyd yn dilyn ymgynghoriad ysgrifenedig llawn â’r NHS, grwpiau proffesiynol, y Diwydiant Fferyllol a grwpiau sy’n cynrychioli’r cyhoedd.

12. Datgelodd yr ymgynghoriad fod cynrychiolaeth y Diwydiant yn y Grp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan yn fater cynhennus. Roedd y rheini a oedd yn awyddus i gynnwys y Diwydiant yn teimlo y byddai’i bresenoldeb yn cynorthwyo’r broses gynllunio strategol ac yn golygu y gellid cynnwys y Diwydiant mewn mentrau a oedd yn gwella cyfathrebu â chleifion. Teimlai eraill y byddai’i gynnwys yn creu gwrthdaro rhwng buddiannau yng ngwaith y grp, ac y gallai roi mantais gystadleuol i rai cwmnïoedd fferyllol â chysylltiadau agos â’r Grp. Adlewyrchir safbwynt bresennol y Llywodraeth yngln â’r Diwydiant Fferyllol yn adroddiad y Deyrnas Unedig y "Pharmaceutical Industry Competitiveness Task Force". Gellir cael copi o’r adroddiad ar y Rhyngrwyd http://www.doh.gov.uk/pictf/pictf/pdf Rhoddir y rhagarweiniad yn Atodiad 7.

13. Dylid ystyried sefydlu Fforwm rhwng yr NHS a’r Diwydiant, fel a awgrymwyd yn Adroddiad y Grp Gorchwyl a Gorffen, i drafod materion sy’n gyffredin rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol a’r Diwydiant Fferyllol. Byddai’r meysydd trafod yn cynnwys nawdd gan y Diwydiant, gwybodaeth i gleifion a rheoli perygl. Byddai’r Fforwm yn adrodd yn ôl i’r Grp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan. (Noder bod y fforwm hwn yn rhywbeth gwahanol i grp Diwydiant Cymru y Cynulliad sy’n trafod materion ehangach megis datblygiad economaidd posibl y Diwydiant Fferyllol yng Nghymru).

14. Yn yr un modd, dylid rhoi ystyriaeth i sefydlu Fforwm Cleifion i drafod disgwyliadau’r defnyddwyr a’u heffaith ar arferion rhagnodi, a hefyd Fforwm Technoleg Gwybodaeth (TG) i drafod materion TG sy’n ymwneud â rhagnodi, megis trosglwyddo rhagnodiadau yn electronig.

**Ystyriaeth**

15. Yn Atodiad 1, ceir manylion y trefniadau gwaith a chylch gorchwyl arfaethedig Grp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan.

16. Yn Atodiad 2, ceir crynodeb o'r ymatebion i'r ymarfer ymgynghori â'r NHS yngln â threfniadau gweithio ar gyfer Grp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan.

17. Yn Atodiad 3, ceir manylion trefniadau gweithio a chylch gorchwyl arfaethedig ar gyfer Partneriaeth Meddyginiaethau Cymru i gefnogi gwaith Grp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan; (noder y cyfeiriwyd at Bartneriaeth Meddyginiaethau Cymru fel Gwasanaeth Cenedlaethol Cefnogi Rhagnodi Cymru yn Adroddiad y Grp Gorchwyl a Gorffen).

18. Yn Atodiad 4, ceir y cynllun gweithredu i gyflwyno argymhellion anstrategol yr adroddiad Gorchwyl a Gorffen, y camau a gymerwyd eisoes tuag at gyflawni'r rhain a'r gwaith a wnaed i gefnogi swyddogaeth Grp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan unwaith y'i sefydlir.

19. Yn Atodiad 5, ceir manylion yngln â'r gost o weithredu argymhellion dechreuol yr adroddiad.

20. Yn Atodiad 6, ceir ymateb i'r cwestiynau a godwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 14eg Mawrth yngln â'r PPRS ac amnewidiadau generig a therapiwtaidd.

21. Yn Atodiad 7, ceir y rhagarweiniad i adroddiad y 'Pharmaceutical Industry Competitiveness Task Force'. Gellir cael copi cyflawn o'r adroddiad ar y Rhyngrwyd http://www.doh.gov.uk/pictf/pictf.pdf.

22. Yn Atodiad 8, ceir copi o Adroddiad y Grp Gorchwyl a Gorffen sy'n rhoi ystyriaeth lawn i'r materion sy'n cefnogi'r argymhellion.

**Cydymffurfiad**

23. Roedd argymhellion y Grp Gorchwyl a Gorffen yn eang eu cwmpas. Ceir disgrifiad o'r pwerau dirprwyedig sy'n sail i argymhellion y Grp yn Atodiad 2 o'r Adroddiad Gorchwyl a Gorffen.

24. Yn amodol ar gytundeb y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ffurfir Grp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan yn ôl pwerau datganoledig Adran 6 (ac Atodlen 4) Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977. Cafodd hyn ei ddirprwyo i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddai'n rhaid i Grp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan gael ei sefydlu trwy orchymyn, yn ôl trefn arferol is-ddeddfwriaeth.

25. Mae Swyddog Cydymffurfio y Cynulliad a Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol wedi gweld y papur hwn, ac maent yn fodlon.

**Cyllid**

26. Gan fod llawer o'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad Gorchwyl a Gorffen i'w drafod â'r

proffesiynau contractio, nid yw’n bosib ar hyn o bryd i fesur goblygiadau cyllidol gweithredu’r adroddiad cyfan.

27. Mae wedi costio cyfanswm o ryw £731,000 i gyllido’r argymhellion dechreuol a gwaith paratoi i gefnogi Grp Strategaeth Meddyginiaethau Gymru Gyfan, gan gynnwys £200,000 a oedd angen i gefnogi Partneriaeth Meddyginiaethau Cymru. Rhaid talu’r costau hyn o gyllidebau’r rhaglenni (Awdurdodau Lleol ac Ymddiriedolaethau NHS, Llinell Gwariant Refeniw 1a yn y Gyllideb, oddi mewn i Brif Grp Gwariant Awdurdodau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rhoddir manylion pellach ynglyn â chostau gweithredu argymhellion yr adroddiad yn Atodiad 5.

28. Trwy weithredu’r argymhellion a wnaethpwyd yn yr adroddiad dylid gallu cyfrannu at wasanaeth gwell i gwsmeriaid a defnyddio adnoddau’n fwy effeithiol.

29. Ymgynghorwyd ag Adran Gyllid yr NHS (JU/JG606) yngln â’r cyflwyniad hwn a nodir nad oes unrhyw oblygiadau cyllidol ychwanegol i’r Cynulliad o ganlyniad i’r cynigion hyn.

**Cyswllt**

30. Os oes angen, mae Mrs Carolyn Poulter (estyniad 3014), Cangen Gwasanaethau Fferyllol, Is-adran Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, yn medru darparu gwybodaeth bellach ar y manylion a gynhwysir yn y papur hwn.